# Gweithdrefnau Gêm Triple Cashword Pink




**Cyflwyniad**
Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer TRIPLE CASHWORD PINK (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

**Manylion y Gêm**
Enw'r Gêm: **"TRIPLE CASHWORD PINK"**
Rhif y Gêm: **"Game 1372"**
Pris Manwerthu: **£3 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.36 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 16,717,140 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

**Sut i chwarae ac ennill**
Mae pedair ardal ar y Cerdyn Crafu – YOUR LETTERS ("Adran Eich Llythrennau"), BONUS GAME ("Ardal Chwarae BONUS GAME", WORD GRID (yr "Adran Grid Geiriau") a'r PRIZE TABLE (y "Tabl Gwobrau").

Mae Adran Eich Llythrennau, yr Adran Grid Geiriau a'r Tabl Gwobrau yn ffurfio'r Brif Gêm.

Gall chwaraewyr ennill hyd at ddwywaith ar Gerdyn Crafu.

**Y Brif Gêm**
Dylech grafu'r haen gyfan oddi ar Adran Eich Llythrennau i ddatgelu 18 o Symbolau Chwarae. Yna, dylech grafu dim ond y llythrennau hynny yn yr Adran Grid Geiriau sy'n cyfateb i'r Symbolau Chwarae a ddatgelwyd o dan yr haen yn Adran Eich Llythrennau.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu tri neu fwy o eiriau cyflawn o dan haen yr Adran Grid Geiriau (y "Geiriau Buddugol"), drwy grafu haen y llythrennau yn yr Adran Grid Geiriau sy'n cyfateb i'r Symbolau Chwarae a ddatgelir o dan yr haen yn Adran Eich Llythrennau. Ni chaiff geiriau o fewn geiriau (er enghraifft TO, TON, ONE yn y gair STONE) eu hystyried yn eiriau 'cyflawn'. Y Wobr fydd y Wobr a ddangosir yn y Tabl Gwobrau ar gyfer cyfanswm y Geiriau Buddugol a ddatgelir gennych o dan haen yr Adran Grid Geiriau.

Os bydd un o'r Geiriau Buddugol yn cynnwys llythyren mewn cylch, byddwch yn ennill Gwobr os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni. Y Wobr fydd teirgwaith y Wobr a ddangosir yn y Tabl Gwobrau ar gyfer cyfanswm y Geiriau Buddugol a ddatgelir o dan haen yr Adran Grid Geiriau.

**Symbolau Chwarae ar gyfer yr Adran Grid Geiriau**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | A | B | C | D | E | F |
| Symbolau Chwarae | G | H | I | J | K | L |
| Symbolau Chwarae | M | N | O | P | Q | R |
| Symbolau Chwarae | S | T | U | V | W | X |
| Symbolau Chwarae | Y | Z | | | | |

18+

**GP GM1372**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

Dim ond y Symbolau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Brif Gêm.

Rhaid i Symbolau Chwarae sydd wedi'u cyfuno i ffurfio gair 'cyflawn' ymddangos mewn cyfres lorweddol (o'r chwith i'r dde) ddi-dor neu gyfres fertigol (o'r top i'r gwaelod) ddi-dor o lythrennau o fewn y Grid Geiriau.

Ceir enghreifftiau o eiriau 'cyflawn' derbyniol isod:

| ENGHREIFFTIAU | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | L |
| S | T | O | N | E |
| P | | | | T |
| Y | | | | |

BONUS GAME

Mae Ardal Chwarae BONUS GAME yn cynnwys un motiff ' '. Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill £5 os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae ' ' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y motiff ' ' yn Ardal Chwarae BONUS GAME.

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer BONUS GAME

| Symbolau Chwarae | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Penawdau Chwarae | STACK | VAULT | CROWN | GLDKEY | -RING |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | -CAR- | NCKLCE | DIAMND | WATCH | -WAD- |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | CLOUD | CAMERA | -BIKE | YACHT | WIN£5 |

Bydd un Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn Ardal Chwarae BONUS GAME. Dim ond Symbolau Chwarae BONUS GAME gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol y gellir eu defnyddio i Chwarae BONUS GAME.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| Symbolau | Y Gwobrau | | | |
| £3 | 3 WORDS = £3 | 1,671,744 | 10 | +/- 5.00% |
| £5 | 4 WORDS = £5 | 501,480 | 34 | +/- 5.00% |
| £5 | £5 BONUS | 1,281,458 | 14 | +/- 5.00% |
| £9 | 5 WORDS = £9 | 334,378 | 50 | +/- 5.00% |
| £9 | 3 WORDS TRIPLED = £9 | 501,590 | 34 | +/- 5.00% |
| £15 | 6 WORDS = £15 | 222,946 | 75 | +/- 5.00% |
| £15 | 4 WORDS TRIPLED = £15 | 278,612 | 60 | +/- 5.00% |
| £20 | 7 WORDS = £20 | 55,673 | 301 | +/- 5.00% |

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| Symbolau | Y Gwobrau | | | |
| £20 | 6 WORDS = £15 + £5 BONUS | 111,467 | 150 | +/- 5.00% |
| £40 | 8 WORDS = £40 | 11,149 | 1,500 | +/- 5.00% |
| £100 | 9 WORDS = £100 | 602 | 27,770 | +/- 5.00% |
| £1,000 | 10 WORDS = £1,000 | 10 | 1,671,714 | +/- 36.55% |
| £10,000 | 11 WORDS = £10,000 | 4 | 4,179,285 | +/- 36.55% |
| £300,000 | 12 WORDS = £300,000 | 4 | 4,179,285 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

### Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 67.95% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £34,075,964 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Camelot ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Camelot heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Camelot argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

### Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot.